Urdd Gobaith Cymru

# Swydd Ddisgrifiad

| | | | |
|---|---|---|---|
| Teitl y swydd: | Cogydd | Lleoliad: | Gwersyll Pentre Ifan |
| Adran: | Cegin a Glanhau | Cyflog: | Gweithredol 3:<br>£14.12 yr awr / £25,690 y flwyddyn (pro-rata) |
| Oriau Gwaith | Rhan amser<br>(20 awr yr wythnos) | Cytundeb: | Dros dro (Ebrill-Medi) gyda'r posibilrwydd o estyniad pellach |
| Yn adrodd i: | Pennaeth Pentre Ifan | Rheolaeth Llinell: | Neb |

Prif bwrpas y swydd:

Cyflawni'r holl ddyletswyddau rheolaidd sy'n gysylltiedig â pharatoi a choginio bwyd i safon uchel yn ogystal â'r dyletswyddau mwy penodol sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaeth sy'n addas ar gyfer y Ganolfan.

---

Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:

1. Cydweithio gyda'r Rheolwr Arlwyo Llangrannog i gynllunio, cyllido a gweithredu system o fwydlenni helaeth i sicrhau darpariaeth o fwyd a gwasanaeth a fydd yn cyflawni anghenion cwsmer ac amcanion cyllidol.
2. Gweithredu system o reolaeth diogelwch bwyd sydd wedi ei seilio ar egwyddorion Pwyntiau Rheoli Critigol Dadansoddi Peryglon (HACCP) i sicrhau bod y bwyd a gynhyrchir yn y Gwersyll yn ddiogel i'w fwyta.
3. Cadw cofnodion ysgrifenedig
4. Sicrhau darpariaeth ddiogel ac iachus yn unol ag anghenion alergedd / anoddefiad bwyd / dietegol, cefndir diwylliannol neu gredoau crefyddol.
5. Sicrhau y caiff archebion am fwyd, deunyddiadau glanhau a chyflenwadau amrywiol eu gwneud yn rheolaidd ac yn gywir, a chadw rheolaeth ar stoc.
6. Cynllunio a choginio i niferoedd cywir gan arbed unrhyw wastraff bwyd
7. Sicrhau bod glendid a safon y gegin i gyd yn cael eu cynnal bob amser i gwrdd ag anghenion Iechyd a Diogelwch / Safonau glendid bwyd
8. Ymgymryd ag unrhyw gyfleoedd hyfforddi yn ôl y gofyn, a chymryd cyfrifoldeb am ddysgu a datblygiad personol
9. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau ychwanegol sy'n berthnasol i'r swydd yn ôl cyfarwyddyd y Rheolwr.

## Manyleb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad

*Nodiadau i ymgeiswyr:*

- *I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*
- *Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.*

| Hanfodol: | Dymunol: |
|---|---|
| 1. Profiad o weithio a rheoli cegin brysur, y gallu i coginio i safon uchel.<br>2. Cymhwyster Glendid Bwyd lefel 2 a Lefel 3.<br>3. Sgiliau Gwasanaeth Cwsmeriaid rhagorol.<br>4. Gallu gweithio'n drefnus, gweithio'n dda dan bwysau,y gallu i gynllunio llwythi gwaith.<br>5. Y gallu i gyfathrebu'n glir, yn effeithiol ac yn broffesiynol.<br>6. Sgiliau bod yn flaenweithgar.<br>7. Ymddangosiad taclus.<br>8. Agwedd hyblyg a pharod at waith, gyda synnwyr cyffredin i ymdrin â sefyllfaoedd sy'n codi.<br>9. Parodrwydd i fod yn hyblyg ar achlysuron am amserau shift. | 1. Cymhwyster HACCP / Alergedd / Anoddefiad Bwyd / Iechyd a Diogelwch / COSHH. |

Newidiadau i'r Swydd Ddisgrifiad: Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

Hyblygrwydd: Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

Adolygiad: Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Ionawr 2023 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

Gwiriadau Perthnasol:

Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG).